**Y PWYLLGOR ADDYSG A DYSGU GYDOL OES** **ELL 17-02(mins)**

## COFNODION

**Dyddiad:** Dydd Iau 21 Tachwedd 2002

**Amser:** 9.00am

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd

| **Yn bresennol: Aelodau'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes** | | |
|---|---|---|
| | Gareth Jones, **Cadeirydd** | Conwy |
| | Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| | Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| | Jane Davidson, Gweinidog y Cynulliad | Pontypridd |
| | Helen Mary Jones | Llanelli |
| | Alun Pugh | Gorllewin Clwyd |
| | Jonathan Morgan | Canol De Cymru |
| | Owen John Thomas | Canol De Cymru |

**Yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Andy Shercliff | XL Wales |
| Cathy Hoyt | XL Wales |
| | |
| Ernst Wegerif | Ysgol Steiner Waldorf Nant-y-cwm, Sir Benfro |
| Caroline Coughlan | Ysgol Steiner Waldorf Nant-y-cwm, Sir Benfro |
| Cath Little | Ysgol Fountain Steiner Waldorf, Caerdydd |

**Swyddogion yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr yr Adran Addysg a Hyfforddiant |
| Keith Davies | Pennaeth yr Is-adran Safonau a Pherfformiad |
| Elizabeth Williams | Pennaeth y Tîm Polisi Ieuenctid |

**Ysgrifenyddiaeth**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**9.00am hyd 9.10am**

**Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, eilyddion a datganiadau o fuddiant**

1.1 Croesawodd y Cadeirydd y pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd.

1.2 Derbyniodd y Cadeirydd ymddiheuriadau gan Huw Lewis, Janice Gregory a Cynog Dafis. Croesawodd y Cadeirydd Owen John Thomas fel eilydd i Cynog Dafis yn ail ran y cyfarfod.

1.3 Cyhoeddodd y Cadeirydd y bydd dadl yn cael ei chynnal ar adroddiad interim y pwyllgor ar Ysgol y Dyfodol yn y cyfarfod llawn ar 25 Mawrth 2003.

1.4 Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r aelodau y byddai'n cyflwyno tystiolaeth i'r Comisiwn Richard ar ran y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2002. Bydd nodyn ffeithiol yn cael ei gylchredeg i'r pwyllgor er gwybodaeth ar 5 Rhagfyr.

1.5 Gofynnodd y Cadeirydd i'r Aelodau am ddatganiadau o fuddiant, yn unol â'r canllawiau diwygiedig ar Reol Sefydlog 4.5. Ni chafwyd rhai.

**9.05am hyd 9.45am**

**Eitem 2: Adroddiad Misol y Gweinidog i'r Pwyllgor**

**ELL 17-02 (p.1)**

**Cau'r Bwlch**

2.1 Mynegwyd pryder y byddai'r awdurdodau addysg lleol (AALlau), wrth adolygu eu fformiwlâu cyllido, yn lleihau cyllidebau rhai ysgolion ac felly'n eu rhwystro rhag cyflawni'r agenda a bennwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai'n ystyried cyfarfod â'r AALlau i drafod effaith unrhyw newidiadau arfaethedig ar ysgolion. Dywedodd y Gweinidog wrth y pwyllgor bod ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar reoliadau newydd ar gyfer cyllido ysgolion a fydd yn dod i rym ym mis Ebrill 2004, ac y byddai'n atgoffa'r AALlau o hyn. Hefyd, dywedodd y Gweinidog ei bod wedi comisiynu'r Comisiwn Archwilio i gynnal adolygiad o'r ffactorau y mae'r AALlau yn eu defnyddio yn eu fformiwlâu cyllid lleol ar hyn o bryd. Bydd y wybodaeth hon yn llywio'r ymgynghoriad.

2.2 Cafwyd trafodaeth ar hyblygrwydd contractau athrawon. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn cefnogi patrymau gweithio hyblyg fel rhannu swyddi. Byddai trefniadau contractiol newydd i wella'r cydbwysedd gwaith/bywyd yn cael eu sefydlu dros y ddwy flynedd nesaf. Dywedodd y Gweinidog y byddai'r AALlau, ymhen amser, yn gallu rhoi darpariaethau Deddf Addysg 2002 ar waith yn y mater hwn.

2.3 Cafwyd trafodaeth ar gyllidebau ysgolion a chyllid dangosol dros gyfnod o dair blynedd. Roedd y Gweinidog yn cefnogi'r egwyddor o gyllid dangosol a dywedodd y bydd ymgynghoriad yn cael ei gynnal maes o law ar sefydlu fforymau cyllideb ym mhob AALl, fel a ganiateir gan Ddeddf Addysg 2002. Bydd y fforymau hyn yn hwyluso'r broses o gynllunio cyllidebau.

2.4 Mynegodd yr aelodau bryder ynghylch datblygu proffesiynol parhaus (CPD) i athrawon. Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gweithio'n llwyddiannus ochr yn ochr â Chyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (GTCW) ar CPD dros y flwyddyn ddiwethaf hon. Roedd y Gweinidog yn rhagweld y byddai'r rownd nesaf o gynlluniau peilot yn edrych ar fentrau ar gyfer yr ysgol gyfan.

**Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)**

2.5 Croesawodd aelodau'r byrddau gwyn ym mhob ysgol gynradd yng Nghymru. Cafwyd trafodaeth ar drafferthion adleoli byrddau gwyn mewn rhai ysgolion hyn am resymau iechyd a diogelwch.

2.6 Cafwyd rhywfaint o drafodaeth ynghylch defnydd y gymuned o ystafelloedd TG yr ysgolion. Dywedodd y Dirprwy Weinidog wrth y Pwyllgor fod llawer o arian wedi'i fuddsoddi mewn TGCh a bod yr AALlau yn cael eu hannog i ysgogi'r gymuned i ddefnyddio'r adnoddau hyn.

2.7 Roedd yr aelodau'n teimlo ei bod hi'n bwysig i ddilyn y datblygiadau diweddaraf ym maes TGCh. Cytunodd y Dirprwy Gweinidog ei bod hi'n bwysig aros ar y blaen, ac nad oedd y cynllun yn cael ei gyfyngu i un mecanwaith gweithredu oherwydd ei bod yn hollbwysig bod cefn gwlad hefyd yn cael ei chynnwys.

**Addysg Arweiniol (Conductive Education)**

2.8 Cyfeiriodd un aelod at lythyr a ddosbarthwyd yn flaenorol i'r aelodau, o Sefydliad Addysg Cymru. Roedd yn ymdrin â chynnig i gyllido 50% o brosiect i gasglu tystiolaeth am Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yng Nghymru. Dywedodd y Gweinidog bod Grwp Ymgynghorol AAA wedi ei sefydlu, bod cynlluniau peilot rhanbarthol yn mynd rhagddynt a bod cyllid wedi ei roi ar gyfer cyflogi pedwar swyddog datblygu. Cyhoeddwyd y Cod Ymarfer a oedd yn rhoi amlinelliad o'r hawliau ychwanegol sydd gan rieni, ac roedd Deddf Addysg 2002 yn cynnwys darpariaethau ar gyfer AAA. Dywedodd y Gweinidog wrth aelodau bod cyllideb ymchwil ar gael a'i bod yn cael cyngor ar y mater.

**Addewid Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol**

2.9 Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod wedi ysgrifennu at yr holl gyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad i'w gwahodd i roi'r addewid hon.

**Adolygiad Uwch-Strwythur ELWa (Adroddiad Rawlings)**

2.10 Gofynnodd yr Aelodau pryd oedd y Gweinidog yn bwriadu gwneud datganiad ar adroddiad Rawlings. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n ceisio cyngor gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a Chyngor Cenedlaethol ELWa ar oblygiadau'r adroddiad, yna byddai'n trafod hyn â'r uwch-swyddogion. Dywedodd y Gweinidog ei bod am i'r aelodau gael y wybodaeth ddiweddaraf ac y byddai'n gwneud datganiad maes o law.

**Grantiau Dysgu'r Cynulliad (GDC)**

2.11 Gofynnwyd i'r Gweinidog a fyddai hi'n rhoi'r newyddion diweddaraf i'r Pwyllgor ar ddyrannu GDCau i fyfyrwyr sy'n gymwys i'w cael. Cytunodd y Gweinidog i gynnwys y pwnc hwn yn ei hadroddiad nesaf i'r Pwyllgor ar 19 Rhagfyr.

**Gweithdrefn**

2.12 Cododd un aelod bwynt gweithdrefnol ynghylch y ffaith bod y Gweinidog yn atodi dogfennau i'w hadroddiadau misol, ac nad oedd digon o amser i'r aelodau ofyn cwestiynau amdanynt. Dywedodd y Gweinidog ei bod am i'r Pwyllgor gael gwybod y newyddion diweddaraf ar faterion perthnasol (e.e. Adroddiad Rawlings), ac os oedd yr aelodau yn dymuno hynny gallent ofyn i'r Cadeirydd (neu'r clerc) gynnwys eitemau penodol ar yr agenda ar gyfer y cyfarfodydd nesaf.

**Pwyntiau Gweithredu**

- Y Gweinidog i anfon nodyn at yr AALLau i'w hatgoffa o'r ymgynghoriad a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn newydd ar y rheoliadau newydd i lywodraethu'r modd y mae ysgolion yn cael eu cyllido o fis Ebrill 2004.
- Y Gweinidog i gynnwys dyrannu GDCau yn ei hadroddiad ar 19 Rhagfyr 2002.

**9.45am hyd 10.45am**

**Eitem 3: Adolygiad Polisi: Ysgol y Dyfodol - Cyflwyniad gan XL Wales**

**ELL 17-02 (p.2)**

3.1 Cyflwynodd y siaradwyr eu papurau, yna cawsant eu holi gan yr aelodau.

**Rhwydweithiau**

3.2 Gofynnodd yr aelodau beth oedd barn XL Wales am y cysylltiad rhwng ei gynigion ar gyfer rhwydweithiau Addysgol Cymru-gyfan a gwasanaethau cymorth presennol yr AALlau a'r sector gwirfoddol. Clywodd yr Aelodau fod XL Wales yn datblygu perthynas uniongyrchol â'r ysgol ac nad oedd XL Wales am gystadlu â darpariaeth yr AALl.

**Athrawon Teithiol**

3.3 Hysbyswyd yr Aelodau bod gan XL Wales chwe athro teithiol ar hyn o bryd. Byddai rhaglen weithgareddau yn cael ei chyflwyno i ysgolion ei chymeradwyo. Gallai'r athrawon teithiol weithio o fewn strategaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol ac roedd XL Wales wedi ceisio nodi anghenion cyflogwyr a chymunedau, gan gynnwys gweithgareddau dilynol. Holodd yr Aelodau pa gorff fyddai'n nodi'r bylchau/anghenion a dywedodd y cyflwynwyr pe sefydlir Grant Addysg Cymru Gyfan, yna byddai hyn yn dibynnu ar gylch gorchwyl a bennwyd gan y Cynulliad, efallai. Gallai nodi meysydd sgiliau ond ni fyddai'n dweud sut yn union y dylid eu cyflawni.

**Menter ac Arloesedd**

3.4 Gofynnodd yr Aelodau sut y gellid cynnwys menter ac arloesedd yn y cwricwlwm. Mewn ymateb, dywedodd y cyflwynwyr y byddai plentyn 11 oed sy'n gadael yr ysgol gynradd wedi dysgu 90% o'i sgiliau menter ac arloesedd y tu allan i'r ysgol a 10% yn yr ysgol. Gellid cyflwyno'r sgiliau hyn yn y cwricwlwm cenedlaethol trwy faes llafur gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg.

**Canlyniadau**

3.5 Gofynnodd Aelodau sut yr oedd y canlyniadau'n cael eu mesur. Clywodd y Pwyllgor fod llawer o'r dystiolaeth yn ansoddol. Er enghraifft ym mhrosiect gofal plant y Gronfa Cyfleoedd Newydd (NOF) yn Abertawe/Port Talbot, byddai asesiad sylfaenol yn cael ei gynnal ar yr un plant dros dair blynedd. Roedd hi'n bwysig newid agwedd plant at ddysgu - yn yr ysgol a thu allan.

**Ariannu**

3.6 Dywedodd y Gweinidog ei bod hi'n bwysig bod ysgolion yn teimlo'n hyderus ynghylch ffynonellau cyllid. Dywedodd y Gweinidog nad oedd hi eisiau tynnu arian o'r gyllideb addysg gyffredinol. Cyfeiriodd y cyflwynwr at y cynnig ar gyfer rhaglen "Rhagoriaeth Addysgol" gan ddweud y dylid ei ystyried fel mecanwaith cyllido hirdymor. Byddai'n rhaid bod y sefydliadau wedi sicrhau sylfaen gyllid; ac o ganlyniad ni fyddai nifer fawr o sefydliadau yn gwneud cais i fod yn rhan o'r fath gynllun. Dywedodd y Gweinidog ei bod yn teimlo y byddai'n fwy priodol i'r Cynulliad nodi sgiliau penodol y sefydliadau a nodi'r mecanweithiau cyllido priodol.

3.7 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad i'r cyfarfod a'r adolygiad polisi.

**10.45am-11.00am**

Cytunodd y Pwyllgor i gael egwyl am 15 munud

**11.00am-12.15pm**

**Eitem Pedwar: Adolygiad Polisi - Ysgol y Dyfodol - Cyflwyniad gan Ysgolion Steiner Waldorf**

**ELL 17-02 (p.3)**

**Cyffredinol**

4.1 Siaradodd y cyflwynwr am theori, arfer ac ethos ysgolion Steiner Waldorf. Yna cafwyd cwestiynau a thrafodaeth. Roedd diddordeb gan yr Aelodau yn y modd yr oedd plant yn trosglwyddo o Ysgol Steiner Waldorf (yng Nghaerdydd) i ysgolion uwchradd yn y sector a gynhelir. Clywodd y pwyllgor bod y dystiolaeth yn anecdotaidd, oherwydd nid oedd ond pum mlynedd ers sefydlu'r ysgol yng Nghaerdydd. Roedd hi'n glir bod y plant wedi magu hyder ac aeddfedrwydd i ddysgu darllen yn gyflym iawn.

**Y Blynyddoedd Cynnar**

4.2 Cyfeiriodd yr Aelodau at y gwaith a wnaed gan y pwyllgor ym maes y blynyddoedd cynnar gan ofyn a oedd y dystiolaeth ar effeithiolrwydd chwarae yn debyg i waith ysgolion Steiner Waldorf. Dywedodd y cyflwynwyr fod hyn yn rhannol gywir. Roedd tystiolaeth anecdotaidd yn dangos bod yr athrawon a oedd wedi ymweld â'r ysgol (yng Nghaerdydd) wedi canfod bod y math o chwarae a geir yno yn wahanol i'r math a geir yn y sector a gynhelir. Er bod gwaith gwych yn cael ei wneud yn addysg y brif-ffrwd, roedd ysgolion Steiner Waldorf yn fwy effeithiol

oherwydd mai'r plant oedd yn llywio'r chwarae.

**TGCh**

4.3 Hysbyswyd y Pwyllgor nad oedd dull Steiner Waldorf o blaid defnyddio cyfrifiaduron hyd nes bod y plant yn bedair ar ddeg. Roedd rhai aelodau'n credu bod hyn yn cyfyngu'n ormod ar y plant ac y gallai technoleg gwybodaeth fod o fudd i blant iau. Cytunodd yr aelodau a'r cyflwynwyr y dylid ystyried TGCh fel arf defnyddiol ac nid fel modd o osgoi meddwl.

**Anawsterau Dysgu/Ymddieithrio**

4.4 Gofynnodd yr aelodau a oedd y cyflwynwr wedi cael profiad o ddelio ag anawsterau dysgu ac ymddieithrio, ac a yw'r rhain yn gysylltiedig ag addysg o fewn y gymuned. Trafododd y cyflwynwyr ddull Steiner Waldorf o ddelio â dyslecsia gan ddweud bod y plant hynny yn cael eu haddysgu i ysgrifennu cyn iddynt ddysgu darllen. Gwnaethant ddweud bod llai o achosion o ddyslecsia yn addysg Steiner Waldorf nac yn addysg y brif-ffrwd. Roedd y cyflwynwyr yn ystyried y gall unedau teuluol leddfu'r problemau cymdeithasol presennol.

**Ymyrraeth**

4.5 Cafwyd ychydig drafodaeth ar oedolion yn ymyrryd yn chwarae distrwythur y plant. Clywodd y pwyllgor bod yn rhaid i'r athro ddangos esiampl i'r plant; byddai'r athro yn ymyrryd os oedd y sefyllfa'n amhriodol, er enghraifft mewn rhai achosion byddai bywydau trwblus y plant yn dod yn amlwg yn eu hymddygiad.

**Cynhwysiant Cymdeithasol**

4.6 Roedd gan yr aelodau ddiddordeb mewn gwybod faint o blant yng Nghymru oedd yn cael eu haddysgu trwy ddull Steiner Waldorf ac a oedd cefndir cymdeithasol y plant yn amrywio. Roedd yr ysgol yng Nghaerdydd yn tyfu a'r plant yn dod o ystod eang o gefndiroedd amrywiol - ac roedd hyn yn cael ei groesawu'n frwd. Roedd y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyfeirio sawl plentyn at yr ysgol. Telir ffioedd ar sail cyfraniadau, ond nid oedd unrhyw blentyn yn cael ei wrthod gan yr ysgol am resymau ariannol.

**Athrawon**

4.7 Gofynnodd yr Aelodau i'r cyflwynwyr enwi un elfen o addysg Steiner Waldorf yr oedden nhw o'r farn y dylid ei chynnwys yn addysg y brif-ffrwd. Wedi ychydig drafodaeth, soniodd y cyflwynwyr am yr athrawon ymroddedig ac ysgogol sydd wedi'u hyfforddi yn null Steiner Waldorf.

**Cymru Ddwyieithog**

4.8 Gofynnodd y Gweinidog i'r cyflwynwyr sut y gallai addysg Steiner Waldorf gyfrannu at ddyfodol Cymru ddwyieithog. Clywodd y pwyllgor fod Ysgol Nant-y-Cwm yn ceisio recriwtio athro Cymraeg arall, ond roeddent yn cael trafferth. Mynegodd y cyflwynwyr eu bod yn dymuno cael ysgol gyfochrog: sef ysgol Steiner Waldorf cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg ar yr un safle. Roedd safleoedd dwyieithog yn Ne Affrica, Japan ac India.

4.9 Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr am eu cyfraniad diddorol i'r adolygiad polisi sydd wedi peri llawer o feddwl.

**Eitem Pump: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

5.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod ar 7 Tachwedd 2002 gydag un newid: paragraff 2.7 - rhoi

"fformwla cyllido awdurdodau lleol" yn lle "system geisiadau".

**Atodiad**

**1. Is-ddeddfwriaeth**

1.1 Ar ôl trafod awgrym Jonathan Morgan, penderfynodd y Pwyllgor beidio â gofyn am i'r weithdrefn estynedig gael ei defnyddio ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth a ganlyn:

- Rheoliadau Addysg (Grantiau Safonau Addysg) (Diwygio) (Cymru) 2002;
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth Perfformiad Ysgolion) (Diwygio) (Cymru) 2003;
- Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr (Cymru) (Diwygio); a
- *The Education (Out turn Statements) (Amendment) (Wales) Regulations 2003.*

**2. Cynnig - Ffioedd Ychwanegol Prifysgolion**

2.1 Cafwyd trafodaeth gryno ar y cynnig a'r gwelliant a ganlyn:

Cynnig Gwreiddiol a gynigwyd gan Helen Mary Jones:

> **"Mae'r Pwyllgor hwn yn gwrthwynebu'n gryf y cysyniad o ffioedd ychwanegol i brifysgolion".**

Gwelliant a gynigwyd gan Jonathan Morgan:

**Dileu "." ac ychwanegu: ", ac yn galw ar Lywodraeth y Deyrnas Unedig i ddiddymu ffioedd hyfforddi."**

2.2 Roedd rhai aelodau o'r farn bod angen mwy o amser arnynt i ystyried y materion a godwyd a dod i gytundeb. Cynigodd Lorraine Barrett gynnig ffurfiol:

**"Bod trafodaeth bellach ar y mater hwn yn cael ei ohirio tan y cyfarfod nesaf ar 5 Rhagfyr."**

O blaid:

- Lorraine Barrett
- Alun Pugh
- Jane Davidson
- Mick Bates

Yn erbyn:

- Helen Mary Jones
- Owen John Thomas
- Jonathan Morgan

Derbyniwyd y cynnig o bedair pleidlais i dair (y Cadeirydd - ymatal).

**Camau i'w cymryd: Y clerc i roi'r mater hwn ar agenda'r cyfarfod ar 5 Rhagfyr.**